

THOMAS, JAMES PURDON LEWES (1903 - 1960), IS-IARLL CILCENNIN, A.S. -

Enw: James Purdon Lewes Thomas
Dyddiad geni: 1903
Dyddiad marw: 1960
Rhiant: Anne Louisa Thomas (née Purdon)
Rhiant: John Lewes Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: A.S.
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd 13 Hydref 1903 yn fab i J. Lewes Thomas, Cae-glas, Llandeilo Fawr, Sir Gaerfyrddin, a'i wraig Anne Louisa (ganwyd Purdon). Addysgwyd ef yn Ysgol Rugby a Choleg Oriol, Rhydychen. Bu'n ymgeisydd (C) dros ranbarth Llanelli yn etholiad cyffredinol 1929, ond bychan fu'r gefnogaeth iddo; etholwyd ef yn A.S. dros ranbarth Henffordd yn 1931 a chadwodd y sedd tan 1955. Bu'n ysgrifennydd seneddol preifat mewn nifer o weinyddiaethau, 1930-40, ac yn arglwydd gomisiynydd y Trysorlys, 1940-43, ysgrifennydd i'r Morlys, 1943-45, ac Arglwydd Cyntaf y Morlys, 1951-56. Bu'n is-gadeirydd y Blaid Geidwadol, 1945-51, ac yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Rugby yn 1958. Dyrchafwyd ef yn Is-iarll Cilcennin yn 1955 ac yn farchog yn 1958. Cyhoeddwyd ei gyfrol *Admiralty House, Whitehall* dri mis wedi ei farwolaeth ar 13 Gorffennaf 1960 pryd daeth y teitl i ben.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Who was who?, 1951-60

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96144782986012160457

Wikidata: Q1681177

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, E. D., (1997). THOMAS, JAMES PURDON LEWES (1903 - 1960), IS-IARLL CILCENNIN, A.S.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-THOM-LEW-1903>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government